

# COVID-19: Rheoli eich rhwymedigaethau iechyd a diogelwch

Sylwer: Nid yw'r wybodaeth a ddarperir isod yn gynhwysfawr ac mae'n gywir fel ar 07.05.2020. Rydym yn eich annog i wirio'r dolenni a ddarperir am y canllawiau a'r wybodaeth ddiweddaraf.



Gweithgaredd	Canllawiau diweddaraf	Ffynhonnellau gwytodaeth a dolenni	Dyddiad cyhoeddi / wedi'i ddiweddarau
<b>Archwiliadau diogelwch nwy</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>Mae'r ddyletswydd gyfreithiol i drwsio a chynnal a chadw pibellau, fflwiau ac offer nwy yn berthnasol o hyd. Ni ddylech atal pob gwiriad diogelwch nwy a chynyddu'r risg i'ch tenantiaid.</li><li>Gellir cynnal gwaith angenrheidiol o hyd mewn cartrefi, fodd bynnag mae'n rhaid ei fod yn unol â chanllawiau ymbellhau cymdeithasol Llywodraeth Cymru.</li><li>Os na allwch gynnal gwiriad diogelwch nwy (e.e. mae tenantiaid yn hunan-ynysu neu os na allwch gael gafael ar beiriannydd nwy cofrestredig), mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth o gamau rhesymol i gydymffurfio â'r gyfraith.</li></ul>	<p><a href="#">Canllawiau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd</a></p> <p><a href="#">Canllawiau ymbellhau cymdeithasol</a></p>	<p>16 Ebrill 2020 (adolygwyd ar 27 Ebrill)</p> <p>23 Ebrill 2020</p>
<b>Gwelliannau Effeithlonrwydd Ynni</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>Daeth Safonau Effeithlonrwydd Ynni Gofynnol sy'n berthnasol i'r sector rhent preifat yng Nghymru i rym ar 1 Ebrill. Mae gradd Tystysgrif Perfformiad Ynni o E neu uwch yn ofynnol ar eiddo rhent preifat er mwyn cydymffurfio.</li><li>Fe'ch anogir i ddangos synnwyr cyffredin a delio'n bragmatig â materion nad ydynt yn rhai brys yn ystod y cyfnod hwn.</li><li>Os na allwch gael mynediad at yr eiddo neu gael gafael ar gontractwr i wneud gwaith angenrheidiol, dogfennwch eich ymdrechion a phob gohebiaeth gyda'ch tenantiaid.</li><li>Mae canllawiau wedi'u cyhoeddi ar gyfer awdurdodau lleol sydd yn pwysleisio y dylid cymryd camau gorfodi mewn ymateb i sefyllfaoedd o argyfwng yn unig.</li></ul>	<p><a href="#">Safonau Effeithlonrwydd Ynni Gofynnol</a></p> <p><a href="#">Canllawiau Llywodraeth Cymru i landlordiaid ac asiantau</a></p>	<p>1 Hydref 2017</p> <p>17 Ebrill 2020</p>
<b>Cynnal a chadw, atgyweiriadau ac ymweliadau</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>Nid yw rhwymedigaethau atgyweirio wedi newid, fodd bynnag dylid gohirio ymweliadau ag eiddo nad ydynt yn rhai brys (e.e. ymweld ag eiddo, gwasanaethau glanhau, atgyweiriadau a/neu gynnal a chadw nad ydynt yn frys ac nad ydynt yn achosi problem iechyd a diogelwch brys). Edrychwch ar ganllaw Llywodraeth Cymru i weld rhestr nad yw'n gynhwysfawr o faterion iechyd a diogelwch brys.</li><li>Pan fo angen mynediad brys, argymhellir eich bod yn gwirio gyda'r tenant i ddeall a yw'n hunan-ynysu, ac os felly, dilyn y cyngor meddygol a ddarperir.</li></ul>	<p><a href="#">Canllawiau Llywodraeth Cymru i landlordiaid ac asiantau</a></p>	<p>17 Ebrill 2020</p>
<b>Cysylltu a thenantiaid</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>Oes angen hunan-ynysu? Rhoi trefniadau cyswllt amgen i denantiaid er mwyn iddynt gysylltu â chi (e.e. e-bost, ffôn neu neges destun). Os na fydd hyn yn bosibl, trwy deulu neu ffrind.</li><li>Os yw'n bosibl, cysylltwch â thenantiaid sy'n agored i niwed yn rheolaidd dros y ffôn, e-bost neu neges destun i ofyn a oes angen unrhyw beth arnynt.</li></ul>	<p><a href="#">Canllawiau Llywodraeth Cymru i landlordiaid ac asiantau</a></p>	<p>17 Ebrill 2020</p>
<b>Dod â thenantiaeth i ben</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>Mae Deddf Coronafeirws 2020 yn ymestyn cyfnod gorchmynion troi allan i dri mis. Bydd y mesurau ar waith yng Nghymru am 6 mis tan 30 Medi 2020. Mae'n berthnasol i'r rhan fwyaf o fathau o denantiaethau yn y sector rhent preifat.</li><li>Yn ogystal, effeithir ar unrhyw hawliadau meddiant landlordiaid yn y system llysoedd neu sydd ar fin mynd i mewn i'r system gan waharddiad 90 diwrnod o wrandawiadau a gorchmynion meddiannu, sy'n weithredol o 27 Mawrth 2020.</li></ul>	<p><a href="#">Deddf Coronafeirws 2020</a></p> <p><a href="#">Canllawiau Llywodraeth Cymru i landlordiaid ac asiantau</a></p>	<p>25 Mawrth 2020</p> <p>17 Ebrill 2020</p>